# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 7 Mehefin 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 74(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I Brif Weinidog Cymru:**

**Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y berthynas rhwng Llywodraethau Cymru a Qatar ar ôl i gymdogion Qatar dorri'r cysylltiadau diplomyddol â'r wlad honno?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6322** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r prinder dybryd o gartrefi ar gyfer pobl iau a theuluoedd i'w prynu neu eu rhentu am bris sy'n agos at y tueddiad hanesyddol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i seilio ei chyfrif o ran anghenion tai ar y rhagolygon amgen yn y ddogfen 'Future Need and Demand for Housing in Wales'.

3. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi strategaeth er mwyn sicrhau bod mwy o dir, gan gynnwys safleoedd tir llwyd, ar gael i adeiladu tai;

b) sicrhau mwy o fuddsoddiad mewn sgiliau galwedigaethol ar gyfer y sector adeiladu a datblygu prentisiaethau modern; ac

c) archwilio'r opsiynau ar gyfer byw fel teulu mewn lleoliadau trefol o ddwysedd uwch, yn dilyn yr arfer gorau mewn llawer o ddinasoedd Ewrop.

'Future Need and Demand for Housing in Wales'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fodloni anghenion amrywiol pobl Cymru o ran tai, gan weithio mewn partneriaeth ag adeiladwyr preifat, y sector rhentu preifat, y cynghorau a'r cymdeithasau tai.

2. Yn croesawu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i:

a) adeiladu 20,000 ychwanegol o dai fforddiadwy erbyn 2021, gan gynnwys 6,000 drwy'r cynllun Cymorth i Brynu – Cymru a 1,000 drwy ei chynllun newydd Rhentu i Brynu;

b) gweithio gyda datblygwyr i annog a hwyluso eu gwaith ehangach o adeiladu cartrefi ar gyfer y farchnad a datgloi potensial busnesau bach a chanolig i adeiladu cartrefi a chreu swyddi â sgiliau ledled Cymru;

c) diogelu'r stoc bresennol o dai cymdeithasol ac annog cymdeithasau tai a chynghorau i fuddsoddi mewn darparu cartrefi newydd drwy ddiddymu'r Hawl i Brynu;

d) buddsoddi mewn datblygu dulliau arloesol o adeiladu tai i ateb yr heriau gan gynnwys patrymau demograffig sy'n newid a'r angen am gartrefi effeithlon o ran ynni;

e) parhau i ailddefnyddio cartrefi gwag a chynnwys darparu tai yn rhan o'i chynlluniau adfywio;

f) sicrhau bod mwy o dir, gan gynnwys tir mewn meddiant cyhoeddus, ar gael i'w ddatblygu i ddarparu tai;

g) parhau i godi safonau yn y sector rhentu preifat a gweithredu ar ffioedd asiantau gosod i denantiaid; a

h) adeiladu ar lwyddiant ei hymyrraeth gynnar mewn perthynas â digartrefedd drwy weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phroblemau pobl sy'n cysgu ar y stryd.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod ffioedd gosod yn rhwystro teuluoedd incwm isel rhag symud cartref o fewn y sector rhentu preifat, ac y gall hyn ostwng ansawdd cartrefi wrth iddo ddileu gallu teuluoedd i adael llety anaddas.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd ffioedd asiantau gosod.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

archwilio ffyrdd y gellir defnyddio'r system gynllunio ymhellach i flaenoriaethu adeiladu cartrefi ar gyfer pobl sy'n prynu am y tro cyntaf a theuluoedd, ac osgoi gadael i ddatblygiadau newydd gael eu dominyddu'n anghymesur gan berchnogaeth prynu i osod a pherchnogaeth ail gartref.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod angen buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth ar gyfer datblygiadau tai newydd, er mwyn bod yn gynaliadwy (gan gynnwys buddsoddi mewn cludiant cyhoeddus a theithio llesol), a buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol i wasanaethu'r boblogaeth ychwanegol.

Yn gresynu bod cyni wedi golygu nad yw buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol yn bosibl, ac yn credu y gallai rhai cynigion ar gyfer datblygiadau tai fod yn anghynaliadwy o ganlyniad i hynny.

## 6 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6325** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod taliadau Ewropeaidd yn ffurfio 80 y cant o incwm ffermydd yng Nghymru ac mai diben y taliadau hyn yw sicrhau bwyd i bobl am bris rhesymol, o ansawdd uchel, sy'n arddel safonau lles uchel.

2. Yn nodi â phryder y gallai cytundebau masnach anghyfrifol achosi i Gymru gael ei gorlifo â bwyd rhad wedi'i fewnforio, gan niweidio'r diwydiant amaethyddol, yr economi wledig ac iechyd y cyhoedd.

3. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth y DU gyflawni addewidion y rhai a fu'n ymgyrchu'n frwd o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd, a gwarantu bod y cyllid

Ewropeaidd ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig yn cael ei roi'n ôl yn ei gyfanrwydd.

4. Yn credu, er mwyn rhoi diogelwch i ffermwyr Cymru a chymunedau gwledig, y dylai Llywodraeth y DU gael cymeradwyaeth pob gwlad yn y DU cyn llofnodi unrhyw gytundeb masnach.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth bresennol y DU i ddarparu yr un cyfanswm ariannol o ran cronfeydd ar gyfer cymorth i ffermydd tan ddiwedd senedd nesaf y DU.

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth bresennol y DU i weithio gyda chynhyrchwyr bwyd, arbenigwyr amgylcheddol a ffermwyr Cymru a Llywodraeth Cymru i lunio system amaeth-amgylcheddol newydd.

## 7 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6326** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd y llynedd.

2. Yn cydnabod bod gan Gymru anghenion a gofynion unigryw drwy gydol y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd.

3. Yn nodi'r pwysigrwydd bod Cymru yn inswleiddio'i hun oddi wrth yr ansicrwydd economaidd o adael yr Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â manteisio ar y cyfleoedd deddfwriaethol ac economaidd newydd a gaiff eu creu wedi inni adael.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau:

a) bod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru feto dros unrhyw gytundeb masnach dramor;

b) bod y pwerau cyllidol dros Dreth ar Werth a'r Doll Teithwyr Awyr yn cael eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyfle cyntaf a bod rhagor o ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyfradd dreth gorfforaethol unigryw yng Nghymru;

c) bod pwerau caffael yn cael eu datganoli i Gymru i alluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan fusnesau Cymru fwy o ran yn y broses gaffael i hyrwyddo busnesau Cymru; a

d) nad yw Cymru yn cael yr un geiniog yn llai o arian (yn ôl yr addewid yn ystod ymgyrch y refferendwm ar adael yr Undeb Ewropeaidd) a bod pecyn buddsoddi newydd yn cael ei ddwyn ymlaen i insiwleiddio economi Cymru drwy gydol yr ansicrwydd economaidd a achosir gan y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynlluniau ar gyfer gwasanaeth mudo i Gymru ac i weithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno deddfwriaeth yn y DU i ganiatáu fisâu rhanbarthol fel bod gan Gymru bolisi mewnfudo sy'n gweithio ar gyfer ei gwasanaethau cyhoeddus a'i heconomi.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi ymrwymiad y Prif Weinidog i sicrhau'r cytundeb gorau i Gymru a'r DU wrth adael yr UE.

Yn croesawu gwarant Llywodraeth Geidwadol y DU na fydd pwerau yn cael eu dwyn yn ôl o'r gweinyddiaethau datganoledig, ac y bydd pwerau gwneud penderfyniadau yng Nghymru yn cael eu hehangu.

Yn cydnabod ei bod yn bwysig i Gymru a'r Deyrnas Unedig groesawu'r cyfleoedd masnach ac economaidd sy'n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn cefnogi cynllun Llywodraeth y DU i gyflwyno cronfa cyd-ffyniant ar gyfer y Deyrnas Unedig.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn credu mai yn y Papur Gwyn, Diogelu Dyfodol Cymru, y nodir orau beth yw amgylchiadau Cymru a'i hanghenion yn y dyfodol.

Diogelu Dyfodol Cymru

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6319** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Datrys prinder tai Cymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Mehefin 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 31 Mai 2017 i'w hateb ar 7 Mehefin 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Llefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

**1. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** Sut y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn sicrhau mwy o atebolrwydd democrataidd yn achos unrhyw ddiwygio llywodraeth leol yn y dyfodol? OAQ(5)0131(FLG)

**2. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn dod â budd i bobl Cymru? OAQ(5)0141(FLG)

**3. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyrannu cyllid i'r portffolio iechyd, llesiant a chwaraeon? OAQ(5)0137(FLG) **TYNNWYD YN ÔL**

**4. Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am hybu amrywiaeth yn sefydliadau democrataidd Cymru? OAQ(5)0142(FLG)

**5. Vikki Howells (Cwm Cynon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr ymdrechion i wella lefelau amrywiaeth yn llywodraeth leol Cymru yng ngoleuni etholiadau'r cynghorau lleol? OAQ(5)0143(FLG)

**6. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am asedau sy'n eiddo i awdurdodau lleol? OAQ(5)0134(FLG)

**7. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fargen dinas-ranbarth Bae Abertawe? OAQ(5)0136(FLG)

**8. Gareth Bennett (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb a ddyrannwyd i'r portffolio economi a'r seilwaith mewn perthynas â diogelwch ar y ffyrdd? OAQ(5)0140(FLG)

**9. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi i awdurdodau lleol yn ne-ddwyrain Cymru ar fater yr hysbysiadau cosb benodedig? OAQ(5)0129(FLG)

**10. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol? OAQ(5)0133(FLG)

**11.** **Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddefnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol? OAQ(5)0144(FLG)**W TYNNWYD YN ÔL**

**12.** **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gontractau caffael cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(5)0135(FLG)

**13.** **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** I ba raddau y mae ein hawdurdodau lleol yn cynrychioli amrywiaeth poblogaeth Cymru yn dilyn yr etholiadau lleol y mis diwethaf? OAQ(5)0138(FLG)

**14.** **Rhianon Passmore (Islwyn):** Pa drafodaethau y mae'r Grŵp Cynghori ar Ewrop wedi'u cael â chynrychiolwyr o lywodraethau datganoledig eraill ynghylch trafodaethau'r DU am adael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0139(FLG)

**15.** **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ym Mhreseli Sir Benfro? OAQ(5)0132(FLG)